

Amgueddfa Cymru: Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019/20

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad dilynol yn rhoi crynodeb i randdeiliaid a staff Amgueddfa Cymru o'n gwaith wrth gefnogi materion cydraddoldeb. Mae'n rhoi manylion ein cynnydd wrth ymgymryd â'n cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â Deddf Cydraddoldebau 2010 a'r Dyletswyddau Penodol i Gymru yn ystod blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2019 - 30 Mawrth 2020.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am Amgueddfa Cymru fel sefydliad, gan amlinellu ein rôl a'n cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu cyfle cyfartal, yn ogystal â'r fframwaith ddeddfwriaethol y mae'n gweithredu o'i mewn.

2. Cefndir a chyd-destun ein hadrodd

2.1 Cyflwynodd Deddf Cydraddoldebau 2010 ddyletswydd cydraddoldeb newydd ar y sector gyhoeddus. Fel awdurdod rhestredig o dan Atodiad 19 o'r Ddeddf, mae gan Amgueddfa Cymru ddyletswyddau statudol o dan y ddyletswydd gyffredinol, ynghyd â dyletswyddau penodol i Gymru.

2.2 Mae'r dyletswyddau penodol i Gymru yn gofyn i ni gyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ar y camau sy'n cael eu cymryd bob blwyddyn, i ddiwallu'r dyletswyddau ac edrych ar ein cynnydd tuag at gyflawni amcanion cydraddoldeb Amgueddfa Cymru.

2.3 Mae ein hymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth, ymgysylltu a chyfranogi wedi bod yn allweddol i helpu Amgueddfa Cymru ddiwallu ein Hamcanion Cydraddoldeb, ac yn parhau i fod yn bwysig. Mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan yr adroddiad 'A Yw Cymru'n Decach?' (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018), mae Amgueddfa Cymru wedi gweithio ar y cyd gyda sawl corff cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu cyfres o amcanion cydraddoldeb strategol ar lefel uchel. Caiff y bartneriaeth ei hadnabod fel Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru. Cafodd yr amcanion eu hamserlennu i gael eu lansio ym mis Mawrth 2020, fodd bynnag, yn sgil Covid-19, cafodd hyn ei ohirio tan 1 Mawrth 2021. Gall rhain gael eu canfod fel atodiad i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-2022.

2.4 Cafodd egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'i saith ffordd o weithio eu hymgorffori yn natblygiad yr amcanion hyn ar y cyd â Safonau'r Iaith Gymraeg.

3. Cynnydd Amgueddfa Cymru tuag at yr Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu 2018-2021

3.1 Caiff amcanion Amgueddfa Cymru ar gyfer y cyfnod hwn eu hamlinellu yn ein Hamcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu. Wrth gydnabod fod hwn yn agenda tymor hir, roedd yr amcanion yn rhychwantu tair blynedd y cynllun.

3.2 Wedi'i fanylu yn yr adran nesaf y mae'r cynnydd a wnaed tuag at Amcanion Cydraddoldeb yn ystod 2019-2020.

3.3 Nodwch nad yw'r camau gweithredu a gaiff eu rhestru drws nesaf i bob amcan yn gyflawn. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ar unrhyw elfen o'n gwaith Cydraddoldeb neu os hoffech fod yn rhan o gyfrannu at ddatblygiad pellach gwaith Amgueddfa Cymru yn y maes hwn, cysylltwch â Kristina Enticott (Kristina.Enticott@amgueddfacymru.ac.uk) neu 02920 573379.

4. Amcan 1: Amrywiaeth yn y Gweithle – Ymgysylltu â Staff

Amcanion a Chanlyniadau: Caiff yr holl staff a gwirfoddolwyr y cyfle i gyflawni eu potensial llawn.

- Cymru ffyniannus
- Cymru sy'n fwy cyfartal

4.1 Mae'r holl staff sy'n rhan o ddewis recriwtio yn cael eu hyfforddi gan weithiwr proffesiynol AD wrth osod Deddfwriaeth Cydraddoldeb ac arfer da ar waith ym mhob rhan o'r broses recriwtio.

4.2 Cynhaliodd Stonewall Cymru Hyfforddiant Tuedd Anymwybodol ar gyfer yr holl staff oedd yn rhan o recriwtio a dewis staff a gwirfoddolwyr rhwng mis Mehefin 2019 a mis Chwefror 2020.

4.3 Mae Amgueddfa Cymru wedi parhau â'i hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ei gweithlu, fel sy'n cael ei ddangos drwy ei gwaith ymgysylltu gyda sefydliadau partner. Mae'r Cynllun Lleoliadau Datblygu Sgiliau wedi cael ei ymgorffori yng ngwaith Amgueddfa Cymru. Ei fwriad yw ymgysylltu gydag unigolion o rannau o'n cymuned sy'n wynebu rhwystrau wrth ddod o hyd i waith. Mae'r lleoliadau yn cynyddu sgiliau a hunanhyder, gan agor Amgueddfa Cymru fel gofod gwaith ar gyfer grwpiau na fyddai o reidrwydd wedi ein gweld felly. Gweithiodd Amgueddfa Cymru ar y cyd â'r sefydliadau partner canlynol er mwyn cynnig nifer o leoliadau o dan y Cynllun yn ystod y cyfnod hwn:

Ymddiriedolaeth Arloesi Remploy, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, Gyrfa Cymru, National Star yng Nghymru, Gofal/ Platfform, Oxfam.

4.4 Gwnaethom gynnal ein statws Buddsoddwr mewn Gwirfoddolwyr ar gyfer 2019-20 gan barhau i ddatblygu a rhannu arfer da y Cyngor Cymreig ar gyfer Gweithredu Gwirfoddol a Grŵp Gwirfoddoli Treftadaeth y DU. Rydym hefyd yn cydweithio gyda phartneriaid ar draws Cymru sy'n rhan o fenter Llywodraeth Cymru, *Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant*.

Gwnaeth **961** o bobl wirfoddoli eu hamser yn Amgueddfa Cymru yn 2019/20 drwy roi amcangyfrif o **30,000** o oriau. O'r rhain:

- Mae 19% o wirfoddolwyr o dan 25.
- Mae 7% yn ystyried bod ganddynt anabledd.
- Mae 6% yn ystyried eu hunain yn BAME.

Mae enghreifftiau o'r rhaglen wirfoddoli yn cynnwys:

- Mentrau garddio cymunedol er enghraifft yr Innovate Trust sy'n datblygu gardd gymunedol yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, a oedd yn galluogi pobl gydag anableddau dysgu i gynnal yr ardd yn wythnosol.

- Lleoliadau datblygu sgiliau, er enghraifft yn Amgueddfa Lechi Cymru cydweithiom gydag Agoriad i gefnogi unigolyn gydag awtistiaeth, gyda'r bwriad iddo ddod yn lleoliad gwaith â thâl.
- Lansiwyd teithiau wedi'u harwain gan wirfoddolwyr LHDTQ+ ym mis Mawrth 2020 yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, wedi'i guradu gan Dan Vo ac wedi ei gyd-gynhyrchu gyda Pride Cymru. Mae'r teithiau wedi cael eu cynllunio i ddechongli gweithiau celf yn yr orielau drwy lygad queer.

4.5 Mae ein menter ymgysylltu ieuencid, Dwylo ar Dreftadaeth, wedi ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, yn cefnogi ystod eang o bobl ifanc i ddod yn rhan o'n gwaith. Mae'r Fforwm Ieuencid yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd er enghraifft yn cynnwys unigolion BAME a LHDTQI+, pobl ar y sbectrwm awtistig, a phobl o gefndiroedd difreintiedig. Roedd y partneriaethau a sefydlwyd yn ystod 2019-20 yn cynnwys y rheiny gyda'r panel Cyngori Is-Saharaidd, a Jukebox Collective, a'n galluogodd i amrywio'r sylfaen o bobl ifanc yr ydym yn gweithio gyda nhw yn sylweddol. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn amrywiaeth yr Arweinwyr Treftadaeth Ifanc (wedi ei newid yn ddiweddar i Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru), grŵp o bobl ifanc angerddol sydd wedi gweithio gyda churaduron a staff eraill i newid ein ffordd o weithio, gan flaenoriaethu pynciau sy'n bwysig iddyn nhw, megis argyfwng yr hinsawdd, hunaniaeth rhywedd, cydraddoldeb, a chynrychiolaeth.

4.6 Mae Amgueddfa Cymru wedi ennill sawl achrediad yn ei rôl fel cyflogwr yn ystod y cyfnod, gan gynnwys gwobr 'Efydd- Cyflawni Newid' fel rhan o Fynegai Lles Yn y Gweithle Mind, fel cydnabyddiaeth o'n gwaith yn datblygu a gosod mentrau ar waith er mwyn hyrwyddo iechyd meddwl da ar gyfer ein staff. Yn ogystal, daethom yn gyflogwr 'Hyder Anabl' (lefel 1) yn 2020 ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gyflawni lefel 2 o fewn y cynllun.

5. Amcan 2: Datblygiad yn y Gweithle - Cynnal Staff a Gwirfoddolwyr

Amcanion a Chanlyniadau: Caiff yr holl staff a gwirfoddolwyr y cyfle i gyflawni eu potensial llawn.

- **Cymru sy'n fwy llewyrchus**
- **Cymru sy'n fwy cyfartal**

5.1 Rydym yn bartner cyflwyno allweddol yn Uchelgais Diwylliannol, menter Cronfa Dreftadaeth y Loteri dan arweiniad MALD a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol. Bwriad y project yw darparu 33 lleoliad hyfforddiant blynyddol dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r hyfforddedigion rhwng 18-24 oed, heb raddio a heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae Amgueddfa Cymru yn cefnogi lleoliadau yn Big Pit, Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Amgueddfa Lechi Cymru. Nod y fenter yw amrywio'r llwybrau tuag at weithio yn y sector diwylliannol.

5.2 Mae'r Arweinwyr Treftadaeth Ifanc wedi cyflwyno sawl sesiwn hyfforddiant i staff yr Amgueddfa am derminoleg LHDTQI+, gan gynnwys diwrnod hyfforddiant Adrannol i staff sy'n rhan o gyflwyno Rhaglenni Cyhoeddus.

5.3 Mae Amgueddfa Cymru yn gweithio gyda'i staff i roi gwybodaeth iddyn nhw a darparu'r hyn sydd ei angen er mwyn cymryd sylw o faterion cydraddoldeb. Mae gan Amgueddfa Cymru ddull dim goddefgarwch i fynd i'r afael â bwllo, aflonyddu a gwahaniaethu, gan roi'r hyder i staff herio'r fath ymddygiad anaddas yn y gweithle drwy ei Hyfforddiant Urddas yn y Gwaith. Mae hyfforddiant Tuedd Anymwybodol hefyd wedi cael ei gomisiynu drwy Stonewall Cymru yn ystod y cyfnod hwn ynghyd â rhaglen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth diwygiedig i staff.

6. Amcan 3: Gwella Mynediad ar gyfer Pobl Anabl

Amcanion a Chanlyniadau: Cynyddu'r amrywiaeth o bobl sy'n ymweld ag Amgueddfa Cymru a defnyddio ein gwasanaethau drwy gael gwared ar rwystrau i fynediad.

- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru iachach
- Cymru â diwylliant egniol ac iaith Gymraeg ffyniannus
- Cymru o gymunedau cydlynus

6.1 Mae sawl rhaglen wedi cael eu datblygu yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ym mis Mai 2019, gweithiom gyda Sefydliad Caerdydd i'r Deillion i gynllunio hygyrchedd i bobl gyda nam ar eu golwg yn yr arddangosfa Nadroedd. Lluniwyd adnodd mewn print bras ar gyfer yr arddangosfa.
- Ym mis Ionawr 2020, fel rhan o Arddangosfa Dippy ar Daith, hwyluswyd gweithdai creadigol ar gyfer teuluoedd b/Byddar. Arweiniwyd y gweithdai gan Jonny Cotsen, artist byddar sydd wedi bod yn cefnogi Amgueddfa Cymru i arwain darpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd b/Byddar. Roedd nifer o gyfranogwyr yn rhan o Grŵp Dwylo Byddar Caerdydd Creadigol.
- Ar draws Amgueddfa Cymru rydym yn ymgysylltu gyda phlant anabl drwy ein rhaglenni addysg.
- Yn ystod 2019/20, rydym wedi cydweithio gydag ysgolion yn cefnogi plant gydag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, cydweithiom gydag Ysgol Pen y Bryn i ddatblygu arddangosfa gymunedol ac adnoddau dysgu e-lyfr digidol, ac yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd cydweithiom gydag Ysgol Anghenion Arbennig Greenfields ym Merthyr i hwyluso sesiynau celf dros gyfnod o sawl mis fel rhan o broiect Cydweithio Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru.

6.2 Mae Amgueddfa Cymru wedi sefydlu mecanwaith sy'n galluogi sefydliadau celf yn ymwneud ag anabledd megis Disability Arts Cymru i ddylanwadu ar ein rhaglen.

6.3 Mae hyfforddiant asesu Effaith Cydraddoldeb diweddar o fewn ein sefydliad wedi gwella ymwybyddiaeth o ddefnyddio'r Model Cymdeithasol Anabledd wrth gynnal asesiad effaith cydraddoldeb ar holl elfennau ein darpariaeth.

6.4 Mae'r Tîm Marchnata a Chyfathrebu yn Amgueddfa Cymru wedi parhau i adolygu'r banc o ddelweddau mae'n ei ddefnyddio i hyrwyddo ein hamgueddfeydd, gan sicrhau ei fod yn cynrychioli cynulleidfaoedd amrywiol.

6.5 Yn adran 4.3, gellir dod o hyd i enghreifftiau ychwanegol o'r gwaith partneriaeth helaeth, a mentrau mae Amgueddfa Cymru yn mynd i'r afael â nhw i wella mynediad ar gyfer pobl anabl.

7. Amcan 4: Gwella Mynediad at Wasanaethau ar gyfer Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig

Amcanion a Chanlyniadau: Cynyddu'r amrywiaeth o bobl sy'n ymweld ag Amgueddfa Cymru ac yn defnyddio ein gwasanaethau.

- Cymru â diwylliant egniol ac iaith Gymraeg ffyniannus
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru iachach

7.1 Mae Amgueddfa Cymru wedi cydweithio gydag ystod o bartneriaid cymunedol, Race Council Cymru, y Panel Cynghori Is-Saharaidd, Black History 365 ac eraill i ddatblygu rhaglenni a chynyddu cynrychiolaeth yn ein gwaith. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Lansio Mis Hanes Du Cymru, rhaglen gelfyddydol greadigol a lansiwyd yn Sain Ffagan ym mis Medi 2019 mewn partneriaeth gyda Race Council Cymru.
- Hwyluso'r Diwrnod Treftadaeth Somali Cymru cyntaf, yn Sain Ffagan ym mis Hydref 2019. Roedd y digwyddiad yn cynnwys arddangosiad pop-yp o wrthrychau diwylliannol, ffasiwn, cerddoriaeth ac ystod o drafodaethau panel.
- *Arddangosfa (heb eu)GWELD (heb eu)CLYWED* ail-ddehongliad o arddangosiad yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ym mis Mawrth 2020. Crëwyd yr arddangosiad hwn yn dilyn adolygiad trefedigaethol o agweddau o'r casgliadau celf ac roedd yn cynnwys cyfnewid penddelwau o ddynion gwyn gyda phenddelwau o bobl ddu, gan gynnwys Paul Robeson, a gosodiad o farddoniaeth a gwaith celf gan Arweinydd Treftadaeth Ifanc BAME. Cafodd y gwaith hwn ei gyflwyno, gan dderbyn ymateb cadarnhaol iawn yn y CAM Triennial yn Ne Affrica: <https://camtriennial2020.org/>.

8. Amcan 5: Prynu Nwyddau a Gwasanaethau

Amcanion a Chanlyniadau: Byddwn yn anelu i ddefnyddio dull sy'n gyfrifol yn gymdeithasol wrth fynd ati i brynu nwyddau, gwasanaethau ac adnoddau a sicrhau fod yr holl gaffaeliadau yn cael eu gwneud yn unol ag ymrwymïadau a wnaed yn y Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

8.1 Mae ein Cynllun Gweithredu Strategaeth Caffael yn ei le ac yn cynnwys mynd i'r afael â Chydraddoldeb a'r agenda cymdeithasol ehangach.

8.2 Mae pob caffaeliad arwyddocaol yn cael eu hysbysebu ac ar gael i bawb ac yn cynnwys cwestiynau a datganiadau am gydraddoldeb a'r agenda cymdeithasol ehangach yn rheolaidd.

8.3 Mae caffaeliadau diweddar yn cynnwys:

- Cwblhaodd Amgueddfa Cymru broses caffael ar gyfer uwchgynllunio yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd lle'r oedd y gwerthusiad tendr yn cael ei gymell gan brofiad yr ymwelwyr, gan fynd i'r afael â materion yn ymwneud â hygyrchedd, cyfranogiad diwylliannol a chynwysoldeb.

- Patrolau Diogelwch yn Big Pit: Aeth Amgueddfa Cymru i mewn i broses gaffael ar gyfer y maes gwaith hwn. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom gais i sicrhau fod y gost bob awr yn seiliedig ar y Cyflog Byw nid yr isafswm cyflog.

8.4 Gwnaeth rhwydweithiau partner mwy amrywiol, sydd wedi eu datblygu drwy fentrau megis Dwylo ar Dreftadaeth yn canolbwyntio ar ymgysylltiad ehangach gyda phobl ifanc, ddarparu ystod eang o ffyrdd o hyrwyddo cyfleoedd i artistiaid a hwyluswyr i weithio gydag Amgueddfa Cymru.

8.5 Mae gan Amgueddfa Cymru raglen gwirfoddoli helaeth. Fel rhan o'r project hwn mae yswiriant yn ei le sydd wedi ei gynllunio i ofalu am gostau os yw gwirfoddolwr yn hawlio iawndal am salwch neu anaf y maen nhw'n credu a gafodd ei achosi gan ei gwaith. Heb hwn, byddai mwy na thebyg angen i Amgueddfa Cymru gyfyngu'r rhaglen neu efallai atal y rhaglen, gan y byddai'r risg yn rhy uchel.

9. Amcan 6: Comisiynu Gwaith wrth Raglennu

Amcanion a Chanlyniadau: Rydym yn cydnabod ein rolau unigryw wrth ddarparu cyfleoedd i ddangos cyfoeth diwylliant amrywiol y genedl drwy'r celfyddydau.

- **Cymru â diwylliant egniïol ac iaith Gymraeg ffyniannus**
- **Cymru gydnerth**
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**
- **Cymru sy'n fwy cyfartal**
- **Cymru ffyniannus**

9.1 Rydym wedi bod yn darparu nifer o gyfleoedd i arddangos cyfoeth diwylliant amrywiol y genedl drwy gyfrwng ein gwaith. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe yn cael ei ddathlu fel amgueddfa cysegr.
- **Arddangosfeydd cymunedol**
Roedd Arddangosfa POBL yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, rhwng 13 Ebrill a 29 Medi 2019, yn cynnwys 120 portread ac 80 munud o fideo, yn dathlu sut oedd y gymuned leol wedi helpu i ffurfio'r amgueddfa. Roedd cyfranogwyr yn cynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl anabl, cymunedau LHDTQI+, ac eraill. Gwahoddwyd ymwelwyr i greu fideo yn eu mamiaith fel rhan o Flwyddyn Ieithoedd Brodorol UNESCO.

Ym mis Medi, lansiwyd arddangosfa pop-yp cymunedol yn Sain Ffagan fel rhan o'n partneriaeth barhaus gyda Sefydliad Hanes Iddewig De Cymru.

- **Digwyddiadau cymunedol**
Ym mis Mai, mynychodd 4,718 o bobl ddigwyddiad PRIDE Abertawe a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe mewn partneriaeth â Chyngor Dinas a Sir Abertawe. Yn ogystal, hwylusodd Amgueddfa Cymru hefyd stondin arddangos ym mis Awst yn Pride Cymru, Caerdydd. Cyd-gynhyrchwyd y cynnwys gan yr Arweinwyr Treftadaeth Ifanc - 'Breninesau Teyrnas yr Anifeiliaid - Bywydau Queer

Anifeiliaid' ac roedd yn hyrwyddo arddangosfa'r Nadroedd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Ym mis Hydref cymerodd 4,560 ran yn Diwali Mela yn Sain Ffagan, wedi ei drefnu gan Ganolfan India Caerdydd. Roedd dathliad yr ŵyl yn cynnwys arddangosiadau o gerddoriaeth, dawns, bwyd, a gweithgareddau diwylliannol eraill.

Cafodd Cynhadledd flynyddol Archif Menywod Cymru ei gynnal mewn partneriaeth gydag Amgueddfa Cymru yn Sain Ffagan.

Cafodd Digwyddiad Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd ei gynnal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau mewn partneriaeth gyda Chyngor Dinas Abertawe a Chymorth Dioddefwyr ac roedd yn cynnwys stondinau gwybodaeth gan EYST, Gwasanaeth yr Ambiwylans, Ysgol Gŵyr, Mend, FAN, Women's Aid a Dinas Cysegr.

- **Adnoddau addysg a rhaglenni**

Cafodd adnodd addysg newydd ei gyhoeddi mewn partneriaeth â Chanolfan Gymunedol Affricanaidd (ACC), Abertawe: Project Pontio'r Cenedlaethau ar wefan Casgliad y Werin Cymru ym mis Gorffennaf 2019. Gweithiodd y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd (ACC) gyda phobl ifanc lleol i ymchwilio i fywydau cenhedlaeth Windrush a gyrhaeddodd yn Nghymru o India'r Gorllewin rhwng y 1940au a'r 1970au. Gobaith y project oedd pontio'r bwlch rhwng cenedlaethau hen ac ifanc, gan ganolbwyntio ar drosglwyddo diwylliant a thraddodiad, a rhannu profiadau am deithio ac ymsefydlu.

- **Casglu Hanes Pobl Dduon (2019-2020)**

Ym mis Ebrill 2019, gwnaethom benodi Curadur Hanes Du rhan amser i ganolbwyntio ar gynyddu cynrychiolaeth hanesion Du yn y casgliad. Wedi ei benodi i ddechrau ar gontract chwe mis, gwnaed y swydd yn barhaol yn 2020. Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd deiliad y swydd a'r tîm curadurol gyda sefydliadau amrywiol ac unigolion i ddatblygu'r casgliad, ac i gyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau cymunedol yn Sain Ffagan. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys:

- Dangosiad o ffilm Just a Little Piece of Jamaica inna Port Talbot yn Sain Ffagan - ffilm lafar sy'n seiliedig ar hanes sy'n dathlu hynafiaid Jamaicaidd Port Talbot a ymgartrefodd yng Nghymru yn y 1950au-60au. Mae copi o'r ffilm a chasgliad o wrthrychau cysylltiedig wedi cael eu rhoi i'r Amgueddfa.
- **Cofnodi Ramadan** ym mosgiau Caerdydd - gweithiodd curaduron gyda mosg Dar Ul-isra a Chanolfan Islamaidd De Cymru i ffilmio'r ddwy gymuned yn nodi Ramadan ac yn torri eu hympryd.
- **Diwrnod Treftadaeth Somaliaid Cymreig** - cynhaliodd Sain Ffagan y Diwrnod Treftadaeth Somaliaid Cymreig cyntaf erioed ym mis Hydref 2019. Wedi ei gyflwyno mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat, Cymdeithas Datblygiad Horn, ac Arweinwyr Treftadaeth Ifanc yr Amgueddfa, roedd y digwyddiad yn cynnwys arddangosiad pop-yp o wrthrychau diwylliannol, sioe ffasiwn, cerddoriaeth draddodiadol, a thrafodaeth banel ar yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn berson ifanc Somali-Cymreig heddiw. Daeth dros 100 o aelodau'r gymuned i'r digwyddiad.

10. Amcan 7: Arweiniad a Chydymffurfiaeth Corfforaethol

Amcanion a Chanlyniadau: Sicrhau trefniadau arwain a llywodraethu strategol, gan sicrhau fod safonau yn uchel ac yn gyson ar draws pob ardal o'n cyfrifoldeb.

10.1 Nod Amgueddfa Cymru yw creu Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n amrywiol yn eu cynrychiolaeth. Cyfrifoldeb y tîm Penodiadau Cyhoeddus o fewn Llywodraeth Cymru yw'r broses o benodi ein Hymddiriedolwyr a byddwn yn parhau i gefnogi a gweithio gyda nhw i sicrhau fod ein prosesau recriwtio yn denu'r ystod fwyaf eang posib o ymgeiswyr addas.

10.2 Cafodd grŵp gwaith traws-adrannol ei benodi i ffurfio ein hamcanion cydraddoldeb strategol ar gyfer 2021-22. Bydd y grŵp yn monitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion yn ystod y cyfnod hwn.

10.3 Caiff dull sy'n gynyddol gydweithgar ei fabwysiadu'n allanol hefyd. Fel rhan o Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru, mae Amgueddfa Cymru wedi gweithio ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill i ddatblygu cyfres o amcanion cydraddoldeb lefel uchel i'w rhannu. Cafodd rhain eu lansio ar 1 Mawrth 2021 a gellir dod o hyd iddynt fel mynegai i Gynllun Cydraddoldeb Strategol Amgueddfa Cymru ar gyfer 2021-2022.

10.4 10.4 Yn dilyn y broses o osod ar waith hyfforddiant gloywi i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o Asesiadau Effaith Cydraddoldeb o fewn ein sefydliad, bydd Amgueddfa Cymru yn sicrhau y bydd y math hwn o asesiad yn dod yn fwyfwy rhan o'n harferion.

11 Cyflog Cyfartal

Amcanion a Chanlyniadau: Lleihau'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod.

Cafodd Adrodd am Fwlch Cyflog ei atal ar gyfer y flwyddyn adrodd 2019/20, yn sgil pandemig Covid-19. Caiff hwn ei gyhoeddi'n fuan yn dilyn dadansoddiad llawn o'n ffigurau.